Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Democracy and Boundary Commission Cymru

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Arolwg 2026 o Etholaethau'r Senedd

# Penderfyniadau Terfynol

Mawrth 2025

© Hawlfraint y Goron 2025

Cewch ailddefnyddio’r wybodaeth hon (ac eithrio’r logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i: http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â’r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae’r ddogfen hon ar gael o’n gwefan hefyd yn: www.cdffc.llyw.cymru

# Rhagair

Ar 3 Medi 2024, cyhoeddodd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ei gynigion cychwynnol a dechreuodd broses ymgynghori ar y cynigion hynny. Cafodd y Comisiwn 3,741 o gynrychiolaethau ynglŷn â'i gynigion cychwynnol. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd. O ganlyniad, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion diwygiedig ar 17 Rhagfyr 2024. Cynigiodd newidiadau i 2 o'r 16 o etholaethau arfaethedig. Yn ogystal, cynigiodd enwau gwahanol ar gyfer 14 o etholaethau. Gwahoddwyd y cyhoedd, grwpiau a sefydliadau i gyflwyno cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion diwygiedig yn ystod y cyfnod ymgynghori diwygiedig a gynhaliwyd o 17 Rhagfyr 2024 tan 13 Ionawr 2025. Edrychodd y Comisiwn yn ofalus ar y 365 o gynrychiolaethau a gafodd yn ystod y cyfnod ymgynghori diwygiedig i weld a ellid diwygio a gwella'r cynigion diwygiedig. Fodd bynnag, bu'n rhaid i'r Comisiwn gydbwyso'r materion a godwyd mewn cynrychiolaethau â'r holl ffactorau eraill y mae'n rhaid iddo eu hystyried, yn ogystal â'r cyfyngiadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth.

Bu'n rhaid cynnal yr arolwg o etholaethau yn unol â darpariaethau'r statud perthnasol, sef Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (y Ddeddf). Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn golygu y bydd rhaid i benderfyniadau terfynol y Comisiwn ddychwelyd 16 o etholaethau'r Senedd a ffurfir trwy gyfuno 2 etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig sy'n cydffinio â'i gilydd. Cynrychiolir pob etholaeth gan 6 aelod, gan roi cyfanswm o 96 o aelodau'r Senedd. Mae'n rhaid cwblhau'r arolwg erbyn 1 Ebrill 2025. Bydd penderfyniadau'r Comisiwn yn cael eu gweithredu trwy'r rheol 'awtomatigrwydd'. Fel y cyfryw, ni fydd angen i'r penderfyniadau gael eu cymeradwyo gan y Senedd. Mae'n rhaid i'r penderfyniadau terfynol gael eu gweithredu fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn.

Wrth ddatblygu ei benderfyniadau terfynol, mae'r Comisiwn wedi rhoi sylw i'r ffactorau statudol y caiff eu hystyried. Lle y bo'n bosibl, mae'r Comisiwn wedi ystyried ffiniau llywodraeth leol presennol; mae wedi ceisio osgoi neu leihau torri cysylltiadau lleol, ac, ar adegau, mae'r Comisiwn wedi rhoi sylw i ystyriaethau daearyddol arbennig.

Yn olaf, yn bersonol, hoffwn ddiolch i'r Comisiynwyr – Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Michael Imperato, Karen Jones, Ginger Weigand a Bethan Williams Price – am eu cyfraniadau amhrisiadwy, yn ogystal â'r Prif Weithredwr a swyddogion eraill y Comisiwn am eu cymorth â'n gwaith.

Beverley Smith
Cadeirydd

## Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

## Arolwg 2026 o Etholaethau'r Senedd

## Adroddiad Penderfyniadau Terfynol

**Cynnwys** **Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | **Cyflwyniad** | **4** |
| **Pennod 2** | **Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau'r Senedd** | **5** |
| **Pennod 3** | **Enwi a dynodi etholaethau** | **7** |
| **Pennod 4** | **Datblygu etholaethau** | **10** |
| **Pennod 5** | **Etholaethau'r Senedd** | **12** |
| **Pennod 6** | **Y penderfyniadau terfynol yn fanwl** | **15** |
| | 1. Bangor Conwy Môn | **16** |
| | 2. Clwyd | **18** |
| | 3. Fflint Wrecsam | **20** |
| | 4. Gwynedd Maldwyn | **22** |
| | 5. Ceredigion Penfro | **24** |
| | 6. Sir Gaerfyrddin | **26** |
| | 7. Gŵyr Abertawe | **28** |
| | 8. Brycheiniog Tawe Nedd | **30** |
| | 9. Afan Ogwr Rhondda | **32** |
| | 10. Pontypridd Cynon Merthyr | **35** |
| | 11. Blaenau Gwent Caerffili Rhymni | **38** |
| | 12. Sir Fynwy Torfaen | **40** |
| | 13. Casnewydd Islwyn | **42** |
| | 14. Caerdydd Penarth | **44** |
| | 15. Caerdydd Ffynnon Taf | **47** |
| | 16. Pen-y-bont Bro Morgannwg | **49** |
| **Pennod 7** | **Gwybodaeth ychwanegol** | **51** |
| **Atodiad 1** | **Tabl penderfyniadau terfynol** | |

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu Saesneg.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

# Pennod 1 Cyflwyniad

**1.** Ar 18 Gorffennaf 2024, cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau arolwg 2026 o etholaethau'r Senedd, yn unol â darpariaethau Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. Ceir crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol ac ymagwedd gyffredinol y Comisiwn at yr arolwg yn nogfen y Comisiwn 'Canllaw i arolwg 2026', sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan y Comisiwn.

**2.** Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 3 Medi 2024. Lluniwyd y cynigion yn seiliedig ar y meini prawf statudol newydd. Pwysleisiwyd, fodd bynnag, fod y cynigion yn rhai dros dro. Roedd lansio'r cynigion cychwynnol yn cynrychioli dechrau ymgynghoriad 4 wythnos pryd y gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno eu cynrychiolaethau yn ysgrifenedig.

**3.** Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion diwygiedig ar 17 Rhagfyr 2024. Roedd lansio'r cynigion diwygiedig yn cynrychioli dechrau ymgynghoriad 4 wythnos pryd y gwahoddwyd y cyhoedd i gyflwyno eu cynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion diwygiedig yn ysgrifenedig. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Ionawr 2025.

**4.** Mae'r Comisiwn bellach yn cyflwyno'r adroddiad hwn i Weinidogion Cymru sy'n dangos yr etholaethau y mae'r Comisiwn wedi penderfynu arnynt er mwyn gweithredu'r rheolau a amlinellir yn y Ddeddf. Mae'r penderfyniadau terfynol hyn yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r holl gynrychiolaethau a wnaed i'r Comisiwn yn ystod y cyfnodau ymgynghori.

**5.** Ar ôl i Weinidogion Cymru dderbyn adroddiad penderfyniadau terfynol y Comisiwn, mae'n rhaid i'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r Senedd. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno'r adroddiad i'r Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei dderbyn. Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gweithredu'r penderfyniadau yn adroddiad terfynol y Comisiwn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, ac fe ddylai hyn fod cyn diwedd cyfnod o 14 wythnos, sut bynnag.

# Pennod 2 Meini prawf ar gyfer arolygu etholaethau'r Senedd

## Cymhwyso darpariaethau Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

**1.** Mae'r meini prawf a ddisgrifir yn y bennod hon yn berthnasol i'r arolwg o etholaethau'r Senedd.

## Cylch arolygu

**2.** Mae Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ('**y Ddeddf**') yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn gyflwyno adroddiad ar arolwg o'r holl etholaethau yng Nghymru erbyn 1 Ebrill 2025, adroddiad arall erbyn 1 Rhagfyr 2028, ac adroddiad bob 8 mlynedd wedi hynny.

## Dosbarthiad etholaethau

**3.** Mae'r Ddeddf yn datgan y bydd nifer benodedig o 16 o etholaethau ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan, ar gyfer arolwg 2026, y dylai'r Comisiwn gyfuno'r 32 o etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig yn barau cyffiniol (sy'n golygu parau o etholaethau "cymdogol", yn yr ystyr eu bod yn rhannu ffin ddaearyddol) er mwyn creu'r 16 o etholaethau'r Senedd.

## Ffactorau statudol

**4.** Mae Atodlen 2 y Ddeddf yn pennu nifer o ffactorau y caiff y Comisiwn eu hystyried wrth iddo ddatblygu cynigion ac argymhellion ar gyfer etholaethau'r Senedd. Yn benodol, caiff y Comisiwn ystyried:

- ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli ar ddyddiad yr arolwg
- ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn enwedig, maint, siâp a hygyrchedd etholaeth arfaethedig y Senedd
- unrhyw gysylltiadau lleol a fyddai'n cael eu torri gan y parau arfaethedig

<u>Ffiniau llywodraeth leol</u>

**5.** Mae'r Ddeddf yn datgan y caiff y Comisiwn ystyried 'ffiniau llywodraeth leol sy'n bodoli ar ddyddiad yr arolwg' wrth ddatblygu ei gynigion ar gyfer etholaethau'r Senedd. Mae'r Comisiwn yn diffinio ffiniau llywodraeth leol yng Nghymru fel ffiniau siroedd, bwrdeistrefi sirol, wardiau etholiadol, cymunedau a wardiau cymunedol. Yn unol â hynny, os (er enghraifft) byddai un cyfuniad posibl o etholaethau seneddol y Deyrnas Unedig yn adlewyrchu ffiniau sir yn agosach na chyfuniad arall posibl, caiff y Comisiwn ystyried hyn wrth benderfynu ffafrio'r cyfuniad cyntaf.

<u>Ystyriaethau daearyddol arbennig</u>

**6.** Mae'r Comisiwn o'r farn y bydd yr ystyriaethau daearyddol arbennig a allai effeithio ar ffiniau etholaethau'r Senedd yn ymwneud yn bennaf â daearyddiaeth ffisegol – fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd, afonydd, aberoedd ac ynysoedd – yn hytrach na daearyddiaeth ddynol neu gymdeithasol. Mae materion diwylliannol, hanesyddol ac economaidd-gymdeithasol ac

agweddau eraill posibl ar ddaearyddiaeth nad yw'n ffisegol (fel cysylltiadau ffyrdd) yn fwy tebygol o godi fel materion wrth ystyried ffactor ar wahân cysylltiadau lleol.

Cysylltiadau lleol

**7.** Fel yr esboniwyd uchod, at ddibenion Arolwg 2026, mae'r Comisiwn yn ystyried pa rai o etholaethau seneddol cyffiniol y Deyrnas Unedig yng Nghymru y dylid eu cyfuno i greu 16 o etholaethau'r Senedd. Yn y cyd-destun hwn, bydd y Comisiwn yn ystyried cysylltiadau lleol rhwng ardaloedd cyffiniol (h.y. cymdogol) etholaethau seneddol y Deyrnas Unedig.

**8.** Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn debygol y crëwyd ffiniau cymunedol presennol i gydnabod cysylltiadau lleol, ac felly eu bod yn debygol o adlewyrchu cysylltiadau lleol. Pan fydd cymunedau (yn ystyr dechnegol ardal etholiadol) wedi'u rhannu'n etholaethau seneddol presennol ar wahân y Deyrnas Unedig, fe allai hyn fod yn ffactor sy'n awgrymu y dylai'r etholaethau hynny gael eu cyfuno. Fodd bynnag, bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried ffactorau eraill amrywiol a allai fod yn arwydd o gysylltiadau lleol rhwng ardaloedd, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) materion diwylliannol, hanesyddol ac economaidd-gymdeithasol a chysylltiadau ffyrdd a thrafnidiaeth.

### Ffactorau nad yw'r Comisiwn yn eu hystyried

Yr effaith ar ganlyniadau etholiadau yn y dyfodol

**9.** Mae'r Comisiwn yn gorff annibynnol a diduedd. Fel y cyfryw, nid yw patrymau pleidleisio presennol a llwyddiannau posibl ymgeiswyr gwleidyddol yn rhan o'i ystyriaethau yn ystod arolwg.

### Enwi a dynodi etholaethau

**10.** Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod y Comisiwn, wrth wneud ei gynigion a'i argymhellion, yn nodi enw a dynodiad ar gyfer pob etholaeth arfaethedig. Ymdrinnir â hyn ym Mhennod 3, isod.

# Pennod 3 Enwi a dynodi etholaethau

**1.** Mae’r Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn yn pennu enw i bob etholaeth y Senedd, ac yn dynodi pob etholaeth yn etholaeth sirol neu’n etholaeth fwrdeistrefol. Mae’r Bennod hon yn disgrifio sut mae’r Comisiwn yn enwi ac yn dynodi etholaethau at ddibenion arolwg 2026.

### Pennu enwau etholaethau

**2.** Yn ei arolwg 2026 o etholaethau’r Senedd, mae’n ofynnol i’r Comisiwn bennu enw unigol ar gyfer pob etholaeth y Senedd y bydd yr etholaeth honno’n cael ei hadnabod wrtho yn Gymraeg ac yn Saesneg, oni bai bod y Comisiwn o’r farn y byddai hynny’n annerbyniol. Yn yr achos hwnnw, caiff y Comisiwn bennu enw Cymraeg ac enw Saesneg ar gyfer yr etholaeth.

**3.** At y diben hwn, cam cyntaf y Comisiwn yw pennu’r enw mwyaf priodol i’r etholaeth yn Gymraeg. Wrth benderfynu ar yr enw hwnnw, mae’r Comisiwn wedi ystyried ffactorau amrywiol, gan gynnwys y canlynol (ond nid yn gyfyngedig iddynt o reidrwydd):

- enwau etholaethau seneddol y Deyrnas Unedig sydd wedi’u cyfuno;
- enwau lleoedd yn ardal yr etholaeth;
- unrhyw enwau neu ddisgrifiadau rhanbarthol o’r ardal;
- nodweddion daearyddol yn yr ardal; ac
- enw unrhyw awdurdod (neu awdurdodau) lleol sy’n gyfrifol am yr ardal.

**4.** Yn y cyd-destun hwn, rhoddodd y Comisiwn ystyriaeth arbennig i unrhyw enwau neu eiriau perthnasol a ddefnyddir yn gyffredin yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae’r Comisiwn wedi ceisio defnyddio enwau sy’n osgoi’r angen i dreiglo geiriau yn Gymraeg.

**5.** Ail gam y Comisiwn oedd ystyried p’un a yw’r enw Cymraeg a bennodd yn ystod y cam cyntaf yn dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg.

**6.** Mae’r Comisiwn o’r farn bod enw Cymraeg yn dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg os yw’n ystyried bod yr enw’n debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth cyffredinol o Gymru nad yw’r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt. Fe allai hyn fod oherwydd (er enghraifft) bod yr enw’n cynnwys enw lle sydd yr un peth neu’n debyg yn Gymraeg ac yn Saesneg (fel yn achos Powys, Clwyd, Wrecsam, Aberdâr neu Bontypridd) neu oherwydd bod yr enw lle yn Gymraeg yn arbennig o adnabyddus yn y rhanbarth (fel yn achos Caerdydd neu Ynys Môn).

**7.** Os yw’r enw Cymraeg yn cynnwys mwy nag un gair, mae’r Comisiwn wedi ystyried bod yr enw hwnnw’n dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg yn unig dim ond os yw pob gair o’r enw’n debygol o fod yn adnabyddadwy yn y modd hwn. Yn unol â hynny:

- os yw’r enw Cymraeg yn cynnwys un neu fwy o enwau lleoedd sy’n debygol o fod yn adnabyddadwy yn y modd hwn yn ogystal ag enw lle nad yw’n adnabyddadwy felly, ni fydd y Comisiwn yn ystyried bod yr enw hwnnw’n dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg;

- os yw'r enw Cymraeg yn cynnwys geiriau nad ydynt yn enwau lleoedd (er enghraifft, dynodiad daearyddol fel "gogledd", "de" neu "ganol"), ni fydd y Comisiwn fel arfer yn ystyried bod yr enw hwnnw'n dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg;
- fodd bynnag, os yw'r enw Cymraeg yn cynnwys enwau lleoedd yn unig sy'n debygol o fod yn adnabyddadwy yn y modd hwn ynghyd â gair Cymraeg sy'n golygu "a/ac", bydd y Comisiwn yn ystyried bod yr enw hwnnw'n dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg.

**8.** Felly, er enghraifft:

- byddai "Pontypridd ac Aberdâr" yn dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg, gan fod y ddau enw lle yn yr enw'n debyg yn Gymraeg a Saesneg ac yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth cyffredinol o Gymru nad yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, ac mae'r Comisiwn o'r farn bod y gair "ac" yn debygol o fod yn adnabyddadwy yn y cyd-destun hwn yn yr un ffordd;
- fodd bynnag, ni fyddai "Gorllewin Pontypridd ac Aberdâr" yn dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg oherwydd ei fod yn cynnwys y dynodiad daearyddol "Gorllewin", nad yw'n debygol o fod yn adnabyddadwy yn y modd a ddisgrifir uchod, ym marn y Comisiwn.

**9.** Os yw'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw Cymraeg yn dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg yn y modd hwn, mae wedi pennu mai'r enw hwnnw ddylai fod yr enw unigol ar gyfer yr etholaeth. Os yw'r Comisiwn wedi penderfynu nad yw'r enw Cymraeg yn dderbyniol ei ddefnyddio yn Saesneg, mae wedi pennu y dylai'r etholaeth gael ei henw Cymraeg a hefyd enw Saesneg sy'n gyfieithiad Saesneg o'i henw Cymraeg.

**10.** Disgrifiodd Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn ymagwedd ddiwygiedig y Comisiwn at bennu enwau etholaethau'r Senedd. Yn ôl y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Comisiwn bennu enw unigol ar gyfer pob etholaeth y Senedd y bydd yr etholaeth honno'n cael ei hadnabod wrtho yn Gymraeg a Saesneg, oni bai bod y Comisiwn o'r farn y byddai hynny'n annerbyniol, ac yn yr achos hwnnw caiff y Comisiwn bennu enw Cymraeg ac enw Saesneg ar gyfer yr etholaeth. Wrth ymateb i'r adroddiad hwnnw, cafodd y Comisiwn nifer o gynrychiolaethau yn gwrthwynebu'r ymagwedd honno ar y sail nad oedd yn trin y Saesneg yn gydradd â'r Gymraeg, neu ei bod fel arall yn anfanteisiol i fuddiannau preswylwyr Cymru nad ydynt yn siarad Cymraeg.

**11.** Nid yw'r Comisiwn yn cytuno â'r gwrthwynebiadau hyn. Fel y disgrifir yn yr Adroddiad Cynigion Diwygiedig, mae'r Comisiwn wedi pennu enwau unigol ar gyfer etholaethau yn Gymraeg dim ond pan ei fod yn ystyried bod yr enwau hynny'n dderbyniol eu defnyddio yn Saesneg, yn yr ystyr eu bod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth eang o Gymru nad yw'r Gymraeg yn brif iaith iddynt. Nid yw'r Comisiwn o'r farn y bydd preswylwyr Cymru nad yw'r Gymraeg yn brif iaith iddynt yn cael eu rhoi dan anfantais berthnasol o ganlyniad i'r angen i gyfeirio at enwau etholaethau'r Senedd, y maent yn adnabyddadwy yn lleol, er eu bod yn Gymraeg. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg hefyd, ac felly mae wedi defnyddio'r ymagwedd a ddisgrifir yn ei Adroddiad Cynigion Diwygiedig wrth bennu enwau etholaethau'r Senedd sydd wedi'u cynnwys yn ei adroddiad terfynol.

## Dynodi etholaethau

**12.** Mae’r ddeddf hefyd yn mynnu bod pob etholaeth yn cael ei dynodi’n ‘etholaeth sirol’ neu’n ‘etholaeth fwrdeistrefol’. Mae’r Comisiwn o’r farn, yn gyffredinol, pan fydd etholaethau’n cynnwys mwy nag elfen wledig fach, y dylent gael eu dynodi’n etholaethau sirol, fel arfer. Mewn achosion eraill, dylid eu dynodi’n etholaethau bwrdeistrefol. Yn Gymraeg, mae’r dynodiad yn cael ei ychwanegu o flaen enw’r etholaeth. Yn Saesneg, mae’r dynodiad yn cael ei ychwanegu ar ôl enw’r etholaeth a’i dalfyrru fel arfer: BC ar gyfer etholaeth fwrdeistrefol a CC ar gyfer etholaeth sirol.

# Pennod 4 Datblygu etholaethau

### Cynigion cychwynnol

**1.** Byddai unrhyw set o gynigion gan y Comisiwn yn arwain at fap o etholaethau Senedd Cymru sy'n wahanol iawn i'r trefniadau presennol. Rhoddwyd y dasg i'r Comisiwn o lunio cynigion ar gyfer yr 16 o etholaethau newydd ac mae'n ofynnol iddo, yn ôl y Ddeddf, baru'r 32 o etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru.

**2.** Cyflwynodd cynigion cychwynnol y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024, fap diwygiedig o etholaethau'r Senedd yng Nghymru gyda newidiadau i bob etholaeth bresennol. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau helaeth, adeiladol a defnyddiol gan unigolion a sefydliadau ynglŷn â'r cynigion cychwynnol, gan gynnwys nifer o gynrychiolaethau a oedd yn berthnasol i Gymru gyfan neu rannau sylweddol o'r wlad. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol, cafodd y Comisiwn gyfanswm o 3,741 o gynrychiolaethau ysgrifenedig – naill ai trwy lythyr, e-bost, deisebau neu gyfraniadau trwy wefan yr ymgynghoriad. Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar iawn am y cynrychiolaethau a gafodd. Mae'r holl gynrychiolaethau, gan gynnwys yr ymateb gan Gomisiynydd y Gymraeg, wedi cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

**3.** Yn ystod y cyfnod ymgynghori a ddilynodd gyhoeddi cynigion cychwynnol y Comisiwn, cafodd y Comisiwn 1,115 o gynrychiolaethau ynglŷn â'r newid i nifer yr etholaethau, y cynnydd yn nifer Aelodau'r Senedd a'r newid i'r system bleidleisio. Nid yw'r Comisiwn wedi ystyried cynrychiolaethau a wnaeth sylwadau ar nifer yr etholaethau neu'r cynnydd yn Aelodau'r Senedd. Mae'r materion hyn wedi cael eu gosod gan y Senedd ac nid ydynt o fewn cylch gwaith y Comisiwn. Hoffai'r Comisiwn bwysleisio hefyd fod ei gynigion yn ymwneud ag etholaethau'r Senedd yng Nghymru yn unig ac na fyddant yn effeithio ar etholaethau Seneddol; ffiniau prif gynghorau, cynghorau tref a chymuned, wardiau etholiadol neu gymunedol; trethi; na gwasanaethau. Felly, nid yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw gynrychiolaeth a wnaed ynglŷn â'r materion hyn.

### Cynigion diwygiedig

**4.** Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Comisiwn ddiwygio ei gynigion cychwynnol yng ngoleuni cynrychiolaethau a dderbynnir. Ar ôl ystyried y cynrychiolaethau a dderbyniwyd, penderfynodd Comisiwn ddiwygio ei gynigion.

**5.** Cyflwynodd cynigion diwygiedig y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, set o etholaethau arfaethedig y Senedd yng Nghymru gyda newidiadau daearyddol i 2 o'i etholaethau arfaethedig cychwynnol. Gwnaed 365 o gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynigion diwygiedig. Cododd rhai faterion newydd. Ailddadleuodd rhai bwyntiau a wnaed wrth ymateb i'r cynigion cychwynnol. Roedd rhai yn cymeradwyo'r cynigion diwygiedig, yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

**6.** Yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ôl cyhoeddi cynigion diwygiedig y Comisiwn, cafodd y Comisiwn 87 o gynrychiolaethau ynghylch y newid yn nifer yr etholaethau, y cynnydd yn nifer Aelodau'r Senedd a'r newid yn y system bleidleisio. Nid yw'r Comisiwn wedi ystyried cynrychiolaethau lle gwnaed sylwadau ar nifer yr etholaethau neu'r cynnydd yn nifer yr Aelodau o'r Senedd. Mae'r materion hyn wedi'u pennu gan y Senedd ac nid ydynt o fewn cylch gwaith y Comisiwn. Mae'r Comisiwn hefyd yn dymuno pwysleisio bod ei benderfyniadau'n ymwneud ag etholaethau'r Senedd yng Nghymru yn unig ac na fyddant yn effeithio ar etholaethau Seneddol; ffiniau prif

gyngor, cyngor tref a chymuned, wardiau etholiadol neu gymunedau; trethi; neu wasanaethau. Felly nid yw'r Comisiwn wedi ystyried unrhyw gynrychiolaeth a wnaed ar y materion hyn.

**7.** Ymgynghorodd y Comisiwn hefyd ar ei bolisi enwi newydd a chafodd 115 o gynrychiolaethau mewn ymateb i'r polisi enwi yn unig. Roedd 11 o sylwadau'n cefnogi'r polisi ac roedd 104 yn gwrthwynebu'r polisi.

### Penderfyniadau terfynol

**8.** Yn dilyn y broses ymgynghori helaeth a gynhaliwyd gan y Comisiwn, mae'n ofynnol iddo bellach gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru sy'n dangos ei benderfyniadau terfynol ynglŷn ag etholaethau'r Senedd yng Nghymru, yr enwau y dylid adnabod yr etholaethau wrthynt, a ph'un a ddylai pob etholaeth fod yn etholaeth sirol neu'n etholaeth fwrdeistrefol.

# Pennod 5 Etholaethau’r Senedd

**1.** Mae mapiau manwl o etholaethau’r Senedd ar gael ar wefan y Comisiwn (sylwch ar y rhybudd hawlfraint ym Mhennod 7 ynglŷn â’r mapiau).


**2.** Dylai pob gwlad, etholaeth Seneddol, etholaeth seneddol San Steffan, Awdurdod Lleol, Ward Etholiadol, ffiniau Cymuned, ffiniau Ward Cymunedol neu Ranbarthau Pleidleisio sydd wedi'u lleoli ar arfordir Cymru gyd-fynd â'r ffin Cymedrig o ran Dŵr Isel fel y nodir gan Linell Ffiniau'r Arolwg Ordnans cyfredol, neu ddata cynnyrch Ffin NGD.

**3.** Bydd ffin Cymedrig y Dŵr Isel a nodir yn data cynnyrch Llinell Ffiniau'r Arolwg Ordnans neu Ffiniau NGD yn destun newid naturiol a graddol dros amser a bydd yn cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd gan yr Arolwg Ordnans fel rhan o'i brosesau adolygu. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y data ffiniau a ddarperir gan yr Arolwg Ordnans.


**4.** Rhoddwyd y dasg i’r Comisiwn o lunio 16 o etholaethau newydd y Senedd. Mae’r Comisiwn wedi ceisio amlygu’r datrysiadau mwyaf addas i anghenion lleol, ledled Cymru, sy’n bosibl o fewn y rheolau statudol a amlinellir yn y Ddeddf.

**5.** Mae map o etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig yng Nghymru gyfan ar gael ar y dudalen nesaf.

**6.** Yn dilyn y map o etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig, ceir map o etholaethau’r Senedd ledled Cymru sy’n amlinellu 16 etholaeth newydd y Senedd.


ETHOLAETHAU SENEDDOL Y DU
0
50
Cilomedrau
Graddfa 1:1,044,000
1. Ynys Môn
2. Bangor Aberconwy
3. Gogledd Clwyd
4. Dwyrain Cleyd
5. Alun a Glannau Dyfrdwy
6. Wrecsam
7. Dwyfor Meirionnydd
8. Maldwyn a Glyndŵr
9. Ceredigion Preseli
10. Aberhonddu, Maesyfed a Chwm tawe
11. Sir Fynwy
12. Torfaen
13. Dwyrain Casnewydd
14. Gorllewin Casnewydd ac Islwyn
15. Blaenau Gwent a Rhymni
16. Caerffili
17. Merthyr Tudful ac Aberdâr
18. Pontypridd
19. Gorllewin Caerdydd
20. Gogledd Caerdydd
21. Dwyrain Caerdydd
22. De Caerdydd a Phen-arth
23. Vale of Glamorgan
24. Pen-y-bont
25. Rhondda ac Ogwr
26. Aberafan Maesteg
27. Castell-nedd a Dwyrain Abertawe
28. Gorllewin Abertawe
29. Gŵyr
30. Llanelli
31. Caerfyrddin
32. Canol a De Sir Benfro
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

# PENDERFYNIADAU TERFYNOL




1. Bangor Conwy Môn
2. Clwyd
3. Fflint Wrecsam
4. Gwynedd Maldwyn
5. Ceredigion Penfro
6. Sir Gaerfyrddin
7. Gŵyr Abertawe
8. Brycheiniog Tawe Nedd
9. Afan Ogwr Rhondda
10. Pontypridd Cynon Merthyr
11. Blaenau Gwent Caerffili Rhymni
12. Sir Fynwy Torfaen
13. Casnewydd Islwyn
14. Caerdydd Penarth
15. Caerdydd Ffynnon Taf
16. Pen-y-bont Bro Morgannwg

(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

# Pennod 6 Y cynigion terfynol yn fanwl

Disgrifir cynigion terfynol y Comisiwn yn fanwl yn y bennod hon. Ar gyfer pob etholaeth, mae'r adroddiad yn amlinellu:

- crynodeb o'r dadleuon a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus o blaid neu yn erbyn cynigion diwygiedig y Comisiwn. Er na chrybwyllir yr holl gynrychiolaethau yn yr adroddiad hwn, mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau a wnaed wrth benderfynu ar ddiwygiadau i'w etholaethau'r Senedd
- ymateb y Comisiwn i'r cynrychiolaethau a'r argymhellion a wnaed
- esboniad o enw'r etholaeth
- map o'r etholaeth

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu cynigion terfynol y Comisiwn. Mae'r allwedd fapio, a ddangosir isod, yn esbonio'r lliwiau a'r llinellau a ddefnyddir ym mhob map yn y bennod hon.

**Allwedd fapio**

Ffin etholaeth y Senedd

## 1. Bangor Conwy Môn

**1.1** Mae’r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o’r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Bangor Aberconwy,

ac:


2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Ynys Môn.

**1.2** Cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth ynglŷn â’r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Bangor Aberconwy ac Ynys Môn. O’r rhain, roedd 1 o blaid a 6 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiwyd 1 trefniant amgen i baru Ynys Môn â Dwyfor Meirionnydd.

**1.3** Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth ynglŷn â’r enw Bangor Conwy Môn. O’r rhain, roedd 2 o blaid ac 1 yn erbyn. Yr enw amgen a gynigiwyd oedd Aberconwy Môn Menai.

**1.4** Mae’r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Bangor Aberconwy ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Ynys Môn fel pâr. Mae gan etholaeth Ynys Môn gysylltiadau ffyrdd â’r tir mawr trwy etholaeth Bangor Aberconwy yn unig. Mae’r Ddeddf yn datgan bod rhaid i’r Comisiwn greu etholaethau sy’n gyffiniol. Mae’r Comisiwn o’r farn bod cysylltiadau cyfathrebu a theithio clir yn rhan hanfodol o allu darparu ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus. Mae’r Comisiwn yn cydnabod bod cysylltiadau ieithyddol, diwylliannol a hanesyddol cryfach rhwng etholaethau Dwyfor Meirionnydd ac Ynys Môn a nifer y cynrychiolaethau sy’n cefnogi paru’r 2 ardal hyn a gafwyd drwy gydol yr arolwg. Fodd bynnag, mae’r diffyg cysylltiadau ffyrdd a thrafnidiaeth uniongyrchol, a amlinellir yn y ddeddfwriaeth, yn cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i baru etholaeth Ynys Môn ag unrhyw etholaeth arall. Mae’r Comisiwn yn ystyried ei bod yn briodol cyfuno’r ardaloedd o ganlyniad i’r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth arfaethedig. Felly, mae’r Comisiwn o’r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**1.5** Mae’r Comisiwn wedi dynodi’r enw unigol **Bangor Conwy Môn** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae’r Comisiwn wedi penderfynu ar yr enw gan fod y tri gair sy’n cynrychioli’r ardaloedd sydd wedi’u cynnwys yn yr etholaeth newydd yn adnabyddadwy. Mae’r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw’n dderbyniol i’w ddefnyddio fel enw unigol. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi’r enw dynodedig.


BANGOR CONWY MÔN
0
10
Cilomedrau
Graddfa 1:329,300
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 2. Clwyd

**2.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Clwyd,

ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Clwyd.

**2.2** Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Clwyd a Gogledd Clwyd. O'r rhain, roedd 2 o blaid a 2 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiodd 2 ddewis amgen i baru Dwyrain Clwyd ag Alun a Glannau Dyfrdwy.

**2.3** Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth ynglŷn â'r enw Clwyd. O'r rhain, roedd 2 o blaid ac 1 yn erbyn. Yr enw amgen a gynigiwyd oedd Bryniau Clwyd a'r Glannau.

**2.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Clwyd ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Clwyd fel pâr. O ganlyniad i etholaeth newydd Bangor Conwy Môn, yr unig etholaeth arall sy'n rhannu ffin ag etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Clwyd yw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Clwyd. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r Comisiwn gyfuno etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig sy'n gyffiniol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad yn briodol o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth newydd, sy'n rhan bwysig o allu darparu ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus, ym marn y Comisiwn. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad newydd yn creu etholaeth gydlynol.

**2.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Clwyd** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth eang o Gymru gan ei fod yn enw a ddefnyddir yn gyffredin ac sydd wedi'i hen sefydlu ar gyfer y rhanbarth. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.

# CLWYD

0 10
Cilomedrau
Graddfa 1:241,900




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 3. Fflint Wrecsam

**3.1** Mae’r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o’r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Alun a Glannau Dyfrdwy,

ac:


2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Wrecsam.

**3.2** Cafodd y Comisiwn 6 chynrychiolaeth ynglŷn â’r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Alun a Glannau Dyfrdwy a Wrecsam. O’r rhain, roedd 1 o blaid a 5 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiwyd 2 drefniant amgen i baru Alun a Glannau Dyfrdwy â Dwyrain Clwyd a pharu Wrecsam â Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

**3.3** Cafodd y Comisiwn 10 cynrychiolaeth ynglŷn â’r enw Fflint Wrecsam. O’r rhain, roedd 2 o blaid ac 8 yn erbyn. Roedd yr enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Dwyrain Sir y Fflint a Wrecsam, Wrecsam Dyfrdwy, neu ffurfiau unigol Alun neu Wrecsam.

**3.4** Mae’r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Alun a Glannau Dyfrdwy ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Wrecsam fel pâr. Mae’r Comisiwn yn cydnabod y byddai cynnig amgen i baru etholaethau Seneddol presennol y Deyrnas Unedig Wrecsam a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr yn aduno dinas gyfan Wrecsam o fewn un etholaeth. Fodd bynnag, o ganlyniad i etholaeth newydd Clwyd, yr unig etholaeth Seneddol arall y Deyrnas Unedig sy’n rhannu ffin ag etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Alun a Glannau Dyfrdwy yw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Wrecsam. Mae’r Comisiwn yn ystyried bod cysylltiadau cyfathrebu a theithio clir yn rhan bwysig o allu darparu ar gyfer cynrychiolaeth effeithiol a chyfleus, ac mae’r Comisiwn o’r farn bod yr ardaloedd hyn wedi’u cysylltu’n dda â’i gilydd trwy gysylltiadau trafnidiaeth, a’u bod o gymeriad tebyg. Felly, mae’r Comisiwn o’r farn bod y cyfuniad newydd yn creu etholaeth gydlynol.

**3.5** Mae’r Comisiwn wedi dynodi’r enw unigol **Fflint Wrecsam** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae’r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw’n dderbyniol i’w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn adlewyrchu enwau’r awdurdodau lleol o fewn yr etholaeth newydd, a’i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth eang o Gymru nad yw’r Gymraeg yn brif iaith iddynt. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi’r enw dynodedig.


FFLINT WRECSAM
0
10
Cilomedrau
Graddfa 1:179,500
Flint
Connah's Quay
Shotton
Buckley
Hawarden
Wrexham
Bangor-on-Dee
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 4. Gwynedd Maldwyn

**4.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyfor Meirionnydd,

   ac:


2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr.

**4.2** Cafodd y Comisiwn 15 o gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyfor Meirionnydd a Sir Drefaldwyn a Glyndŵr. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 14 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiodd 13 drefniadau amgen, gan gynnwys paru Dwyfor Meirionnydd ag naill ai Ceredigion Preseli, Bangor Aberconwy neu Ynys Môn a pharu Sir Drefaldwyn a Glyndŵr ag naill ai Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe neu Wrecsam.

**4.3** Cafodd y Comisiwn 3 cynrychiolaeth ynglŷn â'r enw Gwynedd Maldwyn. Roedd pob un o'r rhain o'i blaid. Ni chynigiwyd unrhyw enwau amgen.

**4.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyfor Meirionnydd ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a dderbyniwyd o blaid paru Dwyfor Meirionnydd ag Ynys Môn ar sail cysylltiadau ieithyddol, diwylliannol a hanesyddol, yn ogystal â'r cynrychiolaethau a wnaed i aduno Wrecsam yn un etholaeth trwy baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr a Wrecsam. Mae'r Comisiwn o'r farn bod cysylltiadau ffyrdd rhesymol rhwng ardaloedd yr etholaeth newydd, fel rhwng Machynlleth a Dolgellau. Er nad yw'r Comisiwn o'r farn bod etholaeth mor fawr yn ddelfrydol, dyma'r opsiwn gorau o ran cynnig cyfuniad cyffiniol o 2 etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig yn yr ardal o ganlyniad i etholaeth newydd Bangor Conwy Môn.

**4.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Gwynedd Maldwyn** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys enw 1 o'r awdurdodau lleol o fewn yr etholaeth newydd a Maldwyn yw enw Cymraeg hanesyddol Trefaldwyn. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.


GWYNEDD MALDWYN
0
25
Cilomedrau
Graddfa 1:532,000
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 5. Ceredigion Penfro

**5.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Ceredigion Preseli,

ac:


2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Canol a De Sir Benfro.

**5.2** Cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Ceredigion Penfro a Chanol a De Sir Benfro. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 6 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiodd 4 drefniadau amgen, gan gynnwys paru Ceredigion Preseli ag naill ai Dwyfor Meirionnydd neu Sir Drefaldwyn Glyndŵr a pharu Canol a De Sir Benfro â Chaerfyrddin.

**5.3** Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth ynglŷn â'r enw Ceredigion Penfro. O'r rhain, roedd 3 o blaid a 2 yn erbyn. Cynigiwyd yr enw amgen Ceredigion Sir Benfro, a defnyddio Pembrokeshire neu Pembroke ac nid Penfro.

**5.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Ceredigion Preseli ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Canol a De Sir Benfro fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a wnaed i baru Ceredigion Preseli â Dwyfor Meirionnydd. Fodd bynnag, mae'r unig gysylltiad ffordd uniongyrchol o Geredigion i Ddwyfor Meirionnydd yn mynd trwy wardiau Machynlleth a Glantwymyn, sy'n rhan o etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, nad yw'n ddymunol ym marn y Comisiwn. Yn ogystal, cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a awgrymodd baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Canol a De Sir Benfro â Chaerfyrddin. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod ei etholaeth newydd, sy'n cadw ardal gyfan Cyngor Sir Caerfyrddin o fewn un etholaeth y Senedd trwy baru Caerfyrddin a Llanelli, yn fwy dymunol. Mae'r Comisiwn yn nodi y byddai'r etholaeth newydd yn cyfuno ardaloedd cyfan prif gynghorau Ceredigion a Sir Benfro yn 1 etholaeth, sydd â chysylltiadau ffyrdd da rhwng y 2 ardal ac sydd felly'n etholaeth gydlynol.

**5.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Ceredigion Penfro** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn adlewyrchu'r awdurdodau lleol sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth newydd a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.


CEREDIGION PENFRO
0
25
Cilomedrau
Graddfa 1:613,100
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 6. Sir Gaerfyrddin

**6.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Caerfyrddin,

ac:


2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Llanelli.

**6.2** Cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Caerfyrddin a Llanelli. O'r rhain, roedd 3 o blaid a 4 yn erbyn. Cynigiodd y cynrychiolaethau gwrthwynebol drefniadau amgen a oedd yn paru Caerfyrddin â Chanol a De Sir Benfro ac yn paru Llanelli â Gŵyr.

**6.3** Cafodd y Comisiwn 8 cynrychiolaeth ynglŷn ag enw'r cynnig diwygiedig, sef Sir Gâr. O'r rhain, roedd 3 o blaid a 5 yn erbyn. Roedd yr enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, a, Llanelli a Chaerfyrddin.

**6.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Caerfyrddin ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Llanelli fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau o blaid paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Llanelli a Gŵyr, i ganiatáu ar gyfer paru Castell-nedd a Dwyrain Abertawe â Gorllewin Abertawe er mwyn cyfuno ardaloedd Abertawe o fewn un etholaeth y Senedd. Fodd bynnag, byddai etholaeth newydd y Comisiwn yn cyfuno ardal gyfan prif gyngor Sir Gaerfyrddin yn un etholaeth. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cyfuno'r ardaloedd o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth da a'r cysylltiadau cyfathrebu sefydledig o fewn yr etholaeth newydd. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad newydd yn creu etholaeth gydlynol.

**6.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Sir Gaerfyrddin** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod yr enw'n mynd yn groes i Bolisi Enwi'r Comisiwn trwy gynnwys ffurf dreigledig o enw'r Sir. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn o'r farn bod yr enw'n adnabyddadwy ac y byddai'n helpu etholwyr i wahaniaethu rhwng enw'r cyngor sir, sef Sir Gâr, ac enw etholaeth y Senedd. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno ag orgraff yr enw dynodedig.


SIR GAERFYRDDIN
0
20
Cilomedrau
Graddfa 1:372,900
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 7. Gŵyr Abertawe

**7.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gŵyr,

ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Abertawe.


**7.2** Cafodd y Comisiwn 6 chynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Gŵyr a Gorllewin Abertawe. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 5 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiodd 5 drefniadau amgen yn cynnwys paru Gŵyr â Llanelli a pharu Gorllewin Abertawe â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe.

**7.3** Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth ynglŷn ag enw'r cynnig diwygiedig, sef Gorllewin Abertawe Gŵyr. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 4 yn erbyn. Mae'r enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Gŵyr Tawe, a Gŵyr Abertawe.

**7.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gŵyr ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Abertawe fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a wnaed i baru Gŵyr a Llanelli i allu paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Abertawe â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe er mwyn uno mwyafrif Dinas a Sir Abertawe o fewn un etholaeth y Senedd. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cyfuno'r ardaloedd fel yr amlinellir uchod o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth newydd yn ogystal â chaniatáu i'r Comisiwn greu etholaeth sy'n uno ardal gyfan prif gyngor Sir Gaerfyrddin o fewn 1 etholaeth y Senedd. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad newydd yn creu etholaeth gydlynol.

**7.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Gŵyr Abertawe** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn adlewyrchu'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth newydd a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth eang o Gymru nad yw'r Gymraeg yn brif iaith iddynt. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno ag orgraff yr enw dynodedig.

**7.6** Hoffai'r Comisiwn amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Dinas a Sir Abertawe (Trefniadau Etholiadol) 2021, y bydd wardiau etholiadol Clydach a'r Glannau yn cael eu rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Brycheiniog Tawe Nedd**.


GŴYR ABERTAWE
0
10
Cilomedrau
Graddfa 1:175,400
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 8. Brycheiniog Tawe Nedd

**8.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe.

**8.2** Cafodd y Comisiwn 27 o gynrychiolaethau ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe. O'r rhain, roedd 2 o blaid a 25 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiodd 15 drefniadau amgen gan gynnwys paru Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe ag naill ai etholaethau Blaenau Gwent a Rhymni, Caerfyrddin, Sir Fynwy, Sir Drefaldwyn a Glyndŵr, Ceredigion Preseli neu Ferthyr Tudful ac Aberdâr. Roedd y cynigion amgen hefyd yn cynnwys cyfuno Castell-nedd a Dwyrain Abertawe ag naill ai Gorllewin Abertawe, neu Aberafan Maesteg.

**8.3** Cafodd y Comisiwn 10 cynrychiolaeth ynglŷn â'i gynnig diwygiedig i enwi'r etholaeth hon yn Dde Powys Tawe Nedd. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 9 yn erbyn. Roedd yr enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Brycheiniog Tawe Nedd, a Phowys Nedd.


**8.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Castell-nedd a Dwyrain Abertawe fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau o blaid parau amgen yn yr ardal hon, ond byddai'r rhain i gyd yn cael effeithiau cynyddol ar barau eraill ar draws yr ardal amgylchynol, gan felly greu set lai dymunol o etholaethau yn gyffredinol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng y ddwy etholaeth ac y byddai'r pâr yn uno ardaloedd sy'n ffurfio rhan o ardal prif gyngor Castell-nedd Port Talbot yn un etholaeth, gan ychwanegu at y cysylltiadau sefydledig sy'n bodoli. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**8.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Brycheiniog Tawe Nedd** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn adlewyrchu'r ardaloedd sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth newydd. Defnyddir Brycheiniog yn rhan o'r enw unigol ar gyfer Parc Cenedlaethol yr ardal ac mae'n debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr yr un rhanbarth eang o Gymru nad yw'r Gymraeg yn brif iaith iddynt. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno ag orgraff yr enw dynodedig.

**8.6** Hoffai'r Comisiwn amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Dinas a Sir Abertawe (Trefniadau Etholiadol) 2021, y bydd wardiau etholiadol Clydach a'r Glannau yn cael eu rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Gŵyr Abertawe**.

**8.7** Hoffai'r Comisiwn hefyd amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Trefniadau Etholiadol) 2021, y bydd ward etholiadol Cimla a Phelenna yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Afan Ogwr Rhondda**.

# BRYCHEINIOG TAWE NEDD




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 9. Afan Ogwr Rhondda

**9.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Aberafan Maesteg,

ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Rhondda ac Ogwr.

**9.2** Cafodd y Comisiwn 8 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Aberafan Maesteg a Rhondda ac Ogwr. O'r rhain, roedd 3 o blaid a 5 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiwyd 4 trefniant amgen gan gynnwys paru Aberafan Maesteg â Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe a pharu Rhondda ac Ogwr ag naill ai Pen-y-bont ar Ogwr neu Bontypridd.

**9.3** Cafodd y Comisiwn 2 gynrychiolaeth ynglŷn â'r enw Afan Ogwr Rhondda. Roedd y ddwy ohonynt o blaid yr enw. Ni chynigiwyd unrhyw enwau amgen.


**9.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Aberafan Maesteg ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Rhondda ac Ogwr fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau o blaid cyfuniadau amgen, fel yr awgrym i baru Aberafan Maesteg a Chastell-nedd a Dwyrain Abertawe yn seiliedig ar y cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd pwysig a'r cymeriad tebyg a rennir rhwng y ddwy ardal. Fodd bynnag, byddai hyn yn cael effeithiau cynyddol ar barau eraill ar draws yr ardal amgylchynol, gan felly greu set lai dymunol o etholaethau yn gyffredinol. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cyfuno'r ardaloedd fel yr amlinellir uchod o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da rhwng y ddwy etholaeth. Mae ardal prif gyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i rhannu ar draws 3 etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig, a byddai'r etholaeth newydd yn cyfuno 2 o'r etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig hynny yn 1 etholaeth y Senedd, gan ychwanegu at y cysylltiadau sefydledig sy'n bodoli. Mae'r Comisiwn hefyd o'r farn bod ymdeimlad cyffredin o gymeriad rhwng cymunedau cymoedd Maesteg, Pontycymer ac Ogwr. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**9.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Afan Ogwr Rhondda** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn adlewyrchu enw'r afon, y coedwigoedd a'r cymoedd sydd wedi'u cynnwys yn yr etholaeth newydd a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.

**9.6** Yn gyntaf, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol Cimla a Phelenna yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Brycheiniog Tawe Nedd**;

**9.7** Yn ail, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol Cymer yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Pontypridd Cynon Merthyr**.

**9.8** Yn drydydd, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol y Pîl, Cynffig a Chefn Cribwr yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Pen-y-bont Bro Morgannwg**.


AFAN OGWR RHONDDA
0
10
cilomedrau
Graddfa 1:157,700
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 10. Pontypridd Cynon Merthyr

**10.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Merthyr Tudful ac Aberdâr,

ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Pontypridd.

**10.2** Cafodd y Comisiwn 8 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Merthyr Tudful ac Aberdâr a Phontypridd. O'r rhain, roedd 4 o blaid a 4 yn erbyn (roedd rhai cynrychiolaethau'n cynnig mwy nag 1 dewis amgen). Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiwyd 8 trefniant amgen gan gynnwys paru Merthyr Tudful ac Aberdâr ag naill ai Caerffili neu Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe, a pharu Pontypridd â Gorllewin Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg neu Rondda ac Ogwr.

**10.3** Cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth ynglŷn â'i gynnig diwygiedig i enwi'r etholaeth hon yn Ferthyr Cynon Taf. O'r rhain, roedd 2 o blaid a 5 yn erbyn. Roedd yr enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Pontypridd, Merthyr ac Aberdâr, Merthyr Tudful Cynon Taf, a Chwm Taf.


**10.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Merthyr Tudful ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Aberdâr a Phontypridd fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau o blaid cyfuniadau amgen yn yr ardal hon, fel cyfuno Merthyr Tudful ac Aberdâr â Chaerffili yn seiliedig ar y cysylltiadau economaidd-gymdeithasol a chymeriad tebyg y 2 ardal, a chyfuno Pontypridd â Gorllewin Caerdydd yn seiliedig ar y cysylltiadau trafnidiaeth a chysylltiadau hanesyddol yr ardaloedd hynny (gan nodi bod ardaloedd fel Creigiau a Phentyrch wedi trosglwyddo rhwng yr etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig hynny). Fodd bynnag, byddai'r cyfuniadau amgen hyn yn cael effeithiau cynyddol ar barau yn yr ardal amgylchynol, gan felly greu set lai dymunol o etholaethau yn gyffredinol. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol cyfuno'r ardaloedd fel yr amlinellir uchod o ganlyniad i'r cysylltiadau ffyrdd da rhwng y 2 etholaeth. Byddai'r etholaeth hefyd yn uno ardaloedd sy'n ffurfio rhan o ardal prif gyngor Rhondda Cynon Taf yn un etholaeth, gan ychwanegu at y cysylltiadau sefydledig sy'n bodoli. Trwy baru'r etholaethau hyn, bydd y Comisiwn hefyd yn gallu cadw ardal Cwm Cynon o fewn 1 etholaeth. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**10.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Pontypridd Cynon Merthyr** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys enwau'r prif drefi ac aneddiadau o fewn yr etholaeth a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno ag orgraff yr enw dynodedig.

**10.6** Hoffai'r Comisiwn amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol Cymer yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Afan Ogwr Rhondda**.

**10.7** Hoffai'r Comisiwn hefyd amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol Gorllewin Pont-y-clun yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Caerdydd Penarth**.

## PONTYPRIDD CYNON MERTHYR




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 11. Blaenau Gwent Caerffili Rhymni

**11.1** Mae’r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o’r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Blaenau Gwent a Rhymni,

ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Caerffili.

**11.2** Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth ynglŷn â’r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Blaenau Gwent a Rhymni a Chaerffili. O’r rhain, roedd 1 o blaid a 3 yn erbyn. Cynigiwyd 2 bâr amgen, sef Blaenau Gwent a Rhymni ag Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe a Chaerffili gyda Merthyr Tudful ac Aberdâr.

**11.3** Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth ynglŷn â’r enw Blaenau Gwent Caerffili Rhymni. O’r rhain, roedd 3 o blaid a 2 yn erbyn. Roedd enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Gorllewin Gwent, a Chwm Rhymni a Blaenau Gwent.


**11.4** Mae’r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Blaenau Gwent ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Rhymni a Chaerffili fel pâr. Mae’r Comisiwn yn cydnabod y parau amgen a dderbyniwyd, ond byddai’r rhain yn tarfu ar barau yn yr ardal amgylchynol, gan felly greu set lai dymunol o etholaethau yn gyffredinol. Mae’r Comisiwn o’r farn bod cysylltiadau ffyrdd da rhwng y 2 ardal ac y byddai’r etholaeth yn uno ardaloedd sy’n ffurfio rhan o ardal prif gyngor Caerffili yn 1 etholaeth, gan ychwanegu at y cysylltiadau sefydledig sy’n bodoli. Felly, mae’r Comisiwn o’r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**11.5** Mae’r Comisiwn wedi dynodi’r enw unigol **Blaenau Gwent Caerffili Rhymni** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae’r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw’n dderbyniol i’w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys y 2 awdurdod lleol a chwm mawr yn yr etholaeth a’i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi’r enw dynodedig.

**11.6** Hoffai’r Comisiwn amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol Cefn Fforest a Phengam yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Casnewydd Islwyn**.

# BLAENAU GWENT CAERFFILI RHYMNI

0 5
Cilomedrau
Graddfa 1:122,300




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 12. Sir Fynwy Torfaen

**12.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Sir Fynwy,

ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Torfaen.

**12.2** Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Sir Fynwy a Thorfaen. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 3 yn erbyn. Ni chynigiwyd unrhyw barau amgen.

**12.3** Cafodd y Comisiwn 4 cynrychiolaeth ynglŷn â'i gynnig diwygiedig i enwi'r etholaeth hon yn Fynwy Torfaen. O'r rhain, roedd 3 o blaid ac 11 yn erbyn. Roedd enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Sir Fynwy Torfaen, Dwyrain Gwent, a Sir Fynwy.

**12.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Sir Fynwy ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Torfaen fel pâr. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw barau amgen yn ystod y cyfnod ymgynghori diwygiedig. Mae'r Comisiwn yn nodi y byddai'r etholaeth yn cyfuno ardaloedd cyfan prif gynghorau Sir Fynwy a Thorfaen yn 1 etholaeth, ac mae'n ystyried bod hyn yn briodol o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth newydd, yn ogystal â hanes o ddarparu gwasanaethau lleol ar y cyd. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**12.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Sir Fynwy Torfaen** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys y 2 awdurdod lleol yn yr etholaeth newydd a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod yr enw'n mynd yn groes i Bolisi Enwi'r Comisiwn trwy gynnwys ffurf dreigledig o enw'r Sir. Fodd bynnag, dadleuodd nifer o gynrychiolaethau a gafwyd yn erbyn defnyddio Mynwy gan ei fod yn cyfeirio at Dref Trefynwy, yn hytrach na'r Sir. Cefnogir yr enw dynodedig gan yr Awdurdod Lleol. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno ag orgraff yr enw unigol.

# SIR FYNWY TORFAEN

0 10
Cilomedrau
Graddfa 1:215,900



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 13. Casnewydd Islwyn

**13.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Casnewydd,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn.

**13.2** Cafodd y Comisiwn 6 chynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Casnewydd ac Islwyn. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 5 yn erbyn. Ni chynigiwyd unrhyw barau amgen.

**13.3** Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth ynglŷn â'r enw Casnewydd Islwyn. O'r rhain, roedd 2 o blaid a 3 yn erbyn. Roedd enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Casnewydd, a Chasnewydd Islwyn.

**13.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Casnewydd ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Casnewydd ac Islwyn fel pâr. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw barau amgen yn ystod y cyfnod ymgynghori diwygiedig. Byddai'r etholaeth yn cyfuno ardal gyfan prif gyngor Casnewydd yn 1 etholaeth, gan felly ychwanegu at gysylltiadau presennol. Mae'r Comisiwn hefyd o'r farn ei bod yn briodol paru'r ardaloedd o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**13.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Casnewydd Islwyn** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys enw'r Ddinas yn ogystal â'r ardal hanesyddol o fewn yr etholaeth a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.

**13.6** Hoffai'r Comisiwn amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol Cefn Fforest a Phengam yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Blaenau Gwent Caerffili Rhymni**.

# CASNEWYDD ISLWYN

0 10

Cilomedrau
Graddfa 1:158,600



(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 14. Caerdydd Penarth

**14.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Caerdydd,

ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig De Caerdydd a Phenarth.

**14.2** Cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 6 yn erbyn. Cynigiodd y cynrychiolaethau gwrthwynebol drefniadau amgen gan gynnwys paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Caerdydd â Gogledd Caerdydd a pharu De Caerdydd a Phenarth ag naill ai Gorllewin Caerdydd neu Fro Morgannwg.

**14.3** Cafodd y Comisiwn 7 cynrychiolaeth ynglŷn â'i gynnig i enwi'r etholaeth ddiwygiedig (paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig De Caerdydd a Phenarth a Dwyrain Caerdydd) yn Dde-ddwyrain Caerdydd a Phenarth. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 6 yn erbyn. Roedd enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys De Caerdydd, Penarth a De Caerdydd, a Chaerdydd Penarth.

**14.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu dychwelyd i'w gynnig cychwynnol, sef paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Caerdydd a De Caerdydd a Phenarth. Yn ein cynnig diwygiedig, cynigiwyd paru Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd er mwyn mesur barn, yn dilyn ymateb cymysg i'r cynnig cychwynnol ar gyfer Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd (a De Caerdydd a Phenarth â Gorllewin Caerdydd). Fodd bynnag, ar ôl derbyn cynrychiolaethau ynglŷn â'r ddau gynnig bellach, mae'n amlwg bod y farn gyffredinol o blaid y parau yn ein hadroddiad cychwynnol. Byddai'r pâr hwn yn uno 2 o'r 4 etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig sy'n rhychwantu Dinas Caerdydd yn 1 etholaeth, gan ychwanegu at y cysylltiadau sefydledig sy'n bodoli yn yr ardal. Mae'r pâr hwn yn ymateb i ddadleuon a wnaed mewn cynrychiolaethau bod afon Taf yn darparu ffin naturiol rhwng Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd a bod y llinell reilffordd yn darparu ffin o wneuthuriad dyn rhwng cymunedau yn nwyrain y Ddinas a'r rhai yn y De. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol paru'r ardaloedd fel yr amlinellir uchod o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth arfaethedig. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol.

**14.5** Mae'r Comisiwn yn cydnabod y gwrthgynigion a dderbyniwyd ac yn deall y dadleuon a wnaed i baru Pontypridd a Gorllewin Caerdydd yn seiliedig ar y cysylltiadau trafnidiaeth a'r cysylltiadau hanesyddol rhwng ardaloedd fel Creigiau a Phentyrch. Mae'r Comisiwn hefyd yn cydnabod y cynrychiolaethau a wnaed i baru etholaethau eraill yn yr ardal, fel De Caerdydd a Phenarth â Bro Morgannwg oherwydd bod nifer fawr o ardaloedd o ardal prif gyngor Bro Morgannwg wedi'u cynnwys yn etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig De Caerdydd a Phenarth, a'r cymeriad tebyg rhwng y 2 ardal. Fodd bynnag, byddai hyn yn tarfu ar barau ar draws yr ardal amgylchynol, gan felly greu set lai dymunol o etholaethau yn gyffredinol.


**14.6** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Caerdydd Penarth** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys enw'r Ddinas yn ogystal â chydnabod yr ardal y tu allan i Gaerdydd o fewn yr etholaeth. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.

**14.7** Hoffai'r Comisiwn amlygu, o ganlyniad i newidiadau a wnaed yn rhan o Orchymyn Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Trefniadau Etholiadol) 2021, bydd ward etholiadol Gorllewin Pont-y-clun yn cael ei rhannu rhwng yr etholaeth hon ac etholaeth **Pontypridd Cynon Merthyr**.

# CAERDYDD PENARTH

0 5

Cilomedrau
Graddfa 1:115,200




(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 15. Caerdydd Ffynnon Taf

**15.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Caerdydd,

ac:


2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Dwyrain Caerdydd.

**15.2** Cafodd y Comisiwn 6 chynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Gorllewin Caerdydd a Gogledd Caerdydd. O'r rhain, roedd 2 o blaid a 4 yn erbyn (roedd rhai cynrychiolaethau'n cynnig mwy nag 1 dewis amgen). Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiwyd 7 pâr amgen gan gynnwys Gogledd Caerdydd â Dwyrain Caerdydd a pharu Gorllewin Caerdydd ag naill ai Pontypridd neu Dde Caerdydd a Phenarth.

**15.3** Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth ynglŷn â'i gynnig i enwi'r etholaeth ddiwygiedig (paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Caerdydd a Gorllewin Caerdydd) yn Ogledd-orllewin Caerdydd. O'r rhain, roedd 1 o blaid a 4 yn erbyn. Roedd enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Caerdydd Ogledd-orllewinol, a Chaerdydd Cwm Taf.

**15.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu dychwelyd i'w gynnig cychwynnol, sef paru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Gogledd Caerdydd a Dwyrain Caerdydd. Cafodd y Comisiwn nifer fawr o gynrychiolaethau o blaid y pâr cychwynnol yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol. Byddai'r pâr hwn yn uno 2 o'r 4 etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig sy'n rhychwantu Dinas Caerdydd yn 1 etholaeth, gan ychwanegu at y cysylltiadau sefydledig sy'n bodoli yn yr ardal. Cafodd y Comisiwn gynrychiolaethau a amlygodd y ffiniau naturiol ac o wneuthuriad dyn sy'n bodoli rhwng ardaloedd Caerdydd fel y'u cynigiwyd yn Adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn. Amlygodd y cynrychiolaethau hyn hefyd y cysylltiadau a rennir rhwng cymunedau yng Ngogledd a Dwyrain y Ddinas. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol paru'r ardaloedd fel yr amlinellir uchod o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth arfaethedig. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad arfaethedig yn creu etholaeth gydlynol.

**15.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Caerdydd Ffynnon Taf** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys enw'r Ddinas yn ogystal â chydnabod yr ardal y tu allan i Gaerdydd o fewn yr etholaeth. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.


CAERDYDD FFYNNON TAF
0
2.5
Cilomedrau
Graddfa 1:64,720
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

## 16. Pen-y-bont Bro Morgannwg

**16.1** Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu etholaeth sirol o'r canlynol:

1. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Pen-y-bont ar Ogwr,

   ac:

2. Etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Bro Morgannwg.

**16.2** Cafodd y Comisiwn 9 cynrychiolaeth ynglŷn â'r cynnig diwygiedig i baru etholaethau Seneddol y Deyrnas Unedig Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. O'r rhain, roedd 1 gynrychiolaeth o blaid ac 8 yn erbyn. Ymhlith y cynrychiolaethau yn erbyn, cynigiwyd 2 bâr amgen, sef Pen-y-bont ar Ogwr â Rhondda ac Ogwr a Bro Morgannwg â De Caerdydd a Phenarth.

**16.3** Cafodd y Comisiwn 5 cynrychiolaeth ynglŷn â'r enw Pen-y-bont Bro Morgannwg. O'r rhain, roedd 2 o blaid a 3 yn erbyn. Roedd enwau amgen a gynigiwyd yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro, a Phenybont a Bro Morgannwg.

**16.4** Mae'r Comisiwn wedi ystyried y cynrychiolaethau ac wedi penderfynu cadw etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Pen-y-bont ar Ogwr ac etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig Bro Morgannwg fel pâr. Mae'r Comisiwn yn cydnabod y cynrychiolaethau a wnaed i baru etholaethau eraill yn yr ardal hon, fel De Caerdydd a Phenarth a Bro Morgannwg oherwydd nifer yr ardaloedd o ardal prif gyngor Bro Morgannwg sydd wedi'u cynnwys yn etholaeth Seneddol y Deyrnas Unedig De Caerdydd a Phenarth, a'r cymeriad tebyg rhwng y 2 ardal. Fodd bynnag, byddai hyn yn tarfu ar barau ar draws yr ardal amgylchynol, gan felly greu set lai dymunol o etholaethau yn gyffredinol. Mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol paru'r ardaloedd fel yr amlinellir uchod o ganlyniad i'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfathrebu da o fewn yr etholaeth. Felly, mae'r Comisiwn o'r farn bod y cyfuniad yn creu etholaeth gydlynol.

**16.5** Mae'r Comisiwn wedi dynodi'r enw unigol **Pen-y-bont Bro Morgannwg** ar gyfer yr etholaeth hon. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu bod yr enw'n dderbyniol i'w ddefnyddio fel enw unigol gan ei fod yn cynnwys enw'r 2 awdurdod lleol yn yr etholaeth a'i fod yn debygol o fod yn adnabyddadwy i breswylwyr. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cefnogi'r enw dynodedig.


PEN-Y-BONT BRO MORGANNWG
0
5
cilomedrau
Graddfa 1:134,900
(H) Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata [2025] OS [100047875]

# Pennod 7 Gwybodaeth ychwanegol

### Hawlfraint y Goron

**1.** Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn darparu'r mapiau manwl a gynhwysir yn yr adroddiad hwn o dan drwydded gan yr Arolwg Ordnans. Mae'r mapiau manwl hyn yn destun hawlfraint y Goron. Bydd atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawlfraint y Goron ac fe allai arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai unrhyw olygydd papur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau yn rhan o erthygl ynglŷn â'r arolwg gysylltu â Swyddfa Hawlfraint yr Arolwg Ordnans yn gyntaf.

### Ymholiadau

**2.** Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth am y Comisiwn, neu agweddau ar waith y Comisiwn, cysylltwch â'r canlynol:

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2046 4819

E-bost: ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Gwefan: www.cdffc.llyw.cymru

## Atodiad 1:
## Penderfyniadau Terfynol: Etholaethau’r Senedd

| Enw Sengl |
|---|
| Bangor Conwy Môn |
| Clwyd |
| Fflint Wrecsam |
| Gwynedd Maldwyn |
| Ceredigion Penfro |
| Sir Gaerfyrddin |
| Gŵyr Abertawe |
| Brycheiniog Tawe Nedd |
| Afan Ogwr Rhondda |
| Pontypridd Cynon  Merthyr |
| Blaenau Gwent Caerffili Rhymni |
| Sir Fynwy Torfaen |
| Casnewydd Islwyn |
| Caerdydd Penarth |
| Caerdydd Ffynon Taf |
| Pen-y-bont Bro Morgannwg |

(H) Hawlfraint y Goron 2025